Cofnodion cyfarfod rhithiol 12 Ebrill 2022 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws		
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Nerys John		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Dywedodd bod y cyfarfod yr olaf yn nhymor y Cyngor. Estynnwyd diolch i Gareth Griffiths fel Cynghorydd Sir gan ei fod yn sefyll i lawr. Gobeithir diolch iddo yn bersonol os bydd yn ymuno a'r cyfarfod nes ymlaen. Estynnwyd diolch hefyd i Nerys a Lliwen am eu cyfraniad i'r Cyngor Cymuned gan obeithio dymuniadau iddynt yn y dyfodol. Mae 5 sedd wag ar y Cyngor ar gyfer y tymor nesaf. Gobeithir cyfethol a gobeithir bydd merched yn barod i'w llenwi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llŷr Evans, Cynog Prys, Casi Roberts a Lliwen Griffith-Williams	
1.1	Cylchoedd Achub Bywyd Y Felinheli - Cyflwynwyd ymateb y Swyddog Barry Davies i'r cais am gylch achub bywyd. Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog os oedd modd iddo archebu'r cylch a bod y Cyngor Cymuned yn talu amdano. Bydd cyfrifoldeb i'w gynnal a'i gadw gan y Cyngor Cymuned. Bydd angen gofyn am hawl i'w osod ar y Toiledau gan Gyngor Gwynedd. Y Clerc i weithredu ar y mater.	**CLERC**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Mawrth ac eglurwyd y sefyllfa ariannol. Derbyniwyd y gwariant a'r adroddiad ariannol.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mis Mawrth fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Nid yw Cyngor Gwynedd wedi dod yn ôl ynglŷn â chynnal cyfarfod rhithiol ar Adroddiad Blynyddol Llwybrau'r Felinheli 2021. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r oedi. Hefyd dywedodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Swyddog Daniel Griffiths ynglŷn â chlirio'r sbwriel oddi wrth yr Afon Cerrig yr Afon, yn anffodus nid yw digwyddiadau fel hyn yn digwydd mwyach.	**CLERC**

5.3	Fe wnaethpwyd "stock Take" ar offer y Cae Chwarae gan y Cynghorydd Dan Williams a Chynghorydd Emyr Gareth. Bellach rydym yn ymwybodol o'r eitemau sydd ar goll. Er brwydro gyda'r cwmni bydd rhaid symud ymlaen a phrydau'r eitemau coll oddi wrth gwmni Kompan. Mae'r eitemau yn costio £3194.12 (Taw £532.35) Diolchwyd i'r Cynghorwyr Daniel Williams ag Emyr Gareth am eu gwaith.	**CLERC**
5.4	Cafwyd adroddiad bod y cerbyd yn y Maes parcio wedi ei symud.	
5.5	Trafodir y neuadd yn eitem 11	
5.6	Mae ychydig o waith wedi ei wneud ar y wefan yn barod. Bydd angen gwneud newidiadau ar gyfer y Wefan i gyd fynd a ffordd newydd gynnal cyfarfodydd yn sgil deddfwriaeth newydd.	
5.7	Cafwyd gwybodaeth bod cais i osod bin sbwriel ger y Safle Bws Tafarngrisiau ar y rhestr weithredu gan Gofal Stryd Cyngor Gwynedd.	
5.8	Parcio Hen Gei Llechi - dywedodd y Cadeirydd bod Cwmni Tregwylan wedi cyfarfod a bod y Cadeirydd am anfon at y Cyngor Cymuned i wneud cais am linellau melyn dwbl ar y gornel i Hen Gei Llechi. Mae 88 o gyfranddalwyr a bod traean yn dai haf. Hefyd dywedodd bod y llwybr o Hen Gei Llechi tuag at Garddfon angen sylw yn enwedig wedi glaw trwm. Credir bod y llwybr yn rhan o'r rhwydwaith seiclo a bod angen gwneud ymholiadau a Sustrans.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais: C22/0302/20/DT Lleoliad: 14 Tai Helen, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SZ Bwriad : Estyniad deulawr i gefn eiddo ynghyd ag adeiladu storfa ar wahan – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	Rhif Cais : C22/0311/20/DT Lleoliad : 39, Ger Y Nant Ger Y Nant, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PF Bwriad - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Nid yw gwaith o dynnu'r graffiti wedi ei gwblhau eto. Gobeithir gwneud hyn y fuan.	
7.2	Mae gwaith gynnal a chadw Stryd Bangor wedi ei wneud drwy lenwi tyllau yn anffodus mae'r gwaith yn ansafonol iawn.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Gweler eitem 5.2	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
	Cyfeiriodd y Clerc bod modd gwneud cais am Cist Gwynedd gogyfer safle Moriah. Bydd angen i'r Cyngor Newydd Fynd ar afael hyn, dywedodd y Cynghorydd Nerys John bydd angen ystyried gwaith i atal y llechi i lithro ac i newid y planhigion.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Gweler eitem 5.3	**CLERC**

11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Rhoddwyd adroddiad llafar ar Y neuadd gan Y Cynghorydd Dan Williams. Mae'r gwaith strwythurol wedi ei gwblhau go gyfer Gaernarfon. Mae trydanwyr wedi gosod golau yn a bydd angen talu'r anfoneb. Bydd angen parhau i wneud yr un gwaith ochr Bangor ond does dim brys go gyfer hynny. Mae defnyddiau wedi eu prynu yn barod. Mae'r llawr wedi ei osod yn ôl ond bydd angen gosod leino, bydd angen paentio ac mae'r Gofalwraig yn barod i wneud hyn. Mae gwaith o newid y goleuadau ar ei hanner. Mae angen newid y tapiau dwr yn y toiledau i sicrhau nad oes neb yn gadael y tapiau i redeg gan fod y neuadd ar "meter" a bod angen cadw'r costau i lawr. Mae'r bolard gogyfer safle parcio'r neuadd wedi ei osod. Mae Call point ger y drws tân er yn gweithio bydd angen ei newid. Trefnwyd cyfarfod yn y neuadd ar y 26 Ebrill er mwyn i bawb gael y cyfle i weld y gwaith.	**CLERC**
12.0	**GWEFAN**	
	Mae ychydig waith cywiro wedi ei wneud ar y wefan. Mae angen gwneud newidiadau ar gyfer manylion cysylltiadau'r aelodau. Y gwaith i barhau yn enwedig go gyfer y Cyngor newydd ym mis Mai.	**CLERC**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim adroddiad perthnasol gogyfer y Cyngor Cymuned.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:00	
Llofnod:		**Dyddiad: 17/05/2022**